Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Tŷ Cariad

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/03/16**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol yn gweithredu o fewn cartref bach i blant a agorodd yn Hydref 2013. Mae’r ysgol wedi’i lleoli mewn tŷ modern ar wahân, mewn lleoliad gwledig yn ne Sir Benfro. Mae’r safle cyfan mewn cyflwr da iawn. Mae un ystafell wedi’i neilltuo’n ystafell ddosbarth bwrpasol, briodol. Mae digon o ardd gan y tŷ, ac ychydig erwau o gaeau porfa.

Pan agorodd yr ysgol, fe wnaeth y perchennog, sy’n athro cymwys a phrofiadol, gyflwyno’r addysg ei hun. Penodwyd athro profiadol, amser llawn yn Nhachwedd 2014. Yn Ionawr 2014, ymunodd y rheolwr gofal preswyl presennol â’r tîm, gan weithredu fel rheolwr gofal preswyl, a chofrestru gydag AGGCC i gadarnhau ei rôl ym mis Hydref 2014.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i ethos meithringar yr ysgol. Mae gan staff a disgyblion berthynas waith gref iawn sy’n helpu i ddatblygu hyder disgyblion a chefnogi eu lles cyffredinol.

Mae gan addysgu ffocws priodol ar ddatblygu medrau llefaredd a darllen disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Mae staff yn gwybod anghenion unigol y disgyblion yn dda ac mae eu disgwyliadau o waith ac ymddygiad disgyblion yn uchel. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy’n cyfateb yn dda i ddiddordebau a galluoedd disgyblion.

Mae partneriaeth waith effeithiol rhwng yr ysgol a staff gofal. Mae hyn yn caniatáu am barhad yn y dull o ddatblygu medrau bywyd disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn darparu cydbwysedd priodol o weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a gweithgareddau awyr agored i ddisgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ddysgu yn yr amgylchedd lleol, trwy gymryd rhan mewn prosiect gwylio adar ac yn wythnos Glanhau’r Arfordir.

### Meysydd i’w datblygu

Nid oes gan yr ysgol system hunanarfarnu drylwyr i lywio’r broses o gynllunio gwelliant.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol o fanwl, i ategu’r gwaith o gyflwyno Saesneg, mathemateg ac unedau ASDAN. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion mewn cynlluniau gwaith a dogfennau cynllunio ar gyfer meysydd pwnc eraill.

Mae disgyblion yn cwblhau ystod ddefnyddiol o asesiadau sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr i staff am gryfderau disgyblion a'u meysydd i'w gwella o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r athro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i osod targedau perthnasol a chynllunio'r camau dysgu nesaf. Fodd bynnag, nid oes fframwaith ffurfiol gan yr ysgol i fesur ac olrhain y cynnydd a wna disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau rhif ac yn dysgu defnyddio a chymhwyso'r pedair rheol rhif yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bob dydd. Er enghraifft, maent yn dysgu dweud yr amser ac yn deall gwerth arian a'r defnydd ohono. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trafod data a dysgu am siâp, gofod a mesur.

Nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Nid yw cynllunio'n nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae angen gwella'r rheolaeth ar ddogfennau, gan gynnwys polisïau pwysig. Er enghraifft, nid yw'r polisi ar iechyd a diogelwch disgyblion ar ymweliadau i ffwrdd o'r safle yn adlewyrchu arfer o ddydd i ddydd yn yr ysgol yn ddigon da.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd trwy gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trafod data a dysgu am siâp, gofod a mesur

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm

A4 Datblygu system drylwyr o hunanarfarnu gan yr ysgol sy'n manteisio ar fonitro pob agwedd ar waith yr ysgol yn effeithiol

A5 Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n effeithiol a'u rhannu gyda staff, eu bod yn adlewyrchu arfer o ddydd i ddydd a'u bod yn ystyried arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu system hunanarfarnu ysgol sy'n cynnwys monitro'r cynllunio a'r ffordd y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno yn rheolaidd ac yn effeithiol**

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae diffyg trylwyredd ym mhroses hunanarfarnu bresennol yr ysgol. Nid oes system ffurfiol i nodi meysydd cryfder a'r rhai y mae angen eu datblygu er mwyn llunio cynllun priodol o welliant parhaus.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2014 a Hydref 2016. Er bod y cynllun yn amlygu meysydd i'w gwella, mae bron pob un o'r rhain wedi'u seilio ar argymhellion Estyn o arolygiadau monitro a chofrestru blaenorol.

Mae'r cynllun yn amlinellu manylion y gwaith i'w gyflawni, y bobl gyfrifol a'r dyddiadau cychwyn. Diweddarodd y pennaeth y cynllun yn Ionawr 2016. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn disgrifio'r rhan fwyaf o'r gwaith fel gwaith 'parhaus' ac nid oes digon o fanylion am y camau nesaf y dylai'r ysgol eu cymryd.

**Argymhelliad 2: Datblygu system ffurfiol ar gyfer arsylwadau gwersi a rhoi adborth ysgrifenedig i staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r perchennog/pennaeth yn ymweld â'r ysgol bob mis. Mae'n cynnal arsylwadau gwersi ac yn rhoi adborth llafar i'r staff. Mae'n rhoi adborth ysgrifenedig ar gyfer adolygiad rheoli perfformiad blynyddol yr athro. Fodd bynnag, nid yw hwn yn cynnwys gwybodaeth benodol o arsylwadau gwersi i helpu'r athro i wella'i arfer. Nid yw'r adolygiad yn cynnwys unrhyw dargedau cytûn ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Nid yw'r ysgol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi yn effeithiol i lywio hunanarfarnu nac i ddatblygu cynllun gwella priodol ar gyfer yr ysgol.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei drefnu fel bod cofnod clir o'u cyflawniad a'u cynnydd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi casglu gwaith a gwblhawyd gan ddisgyblion dros gyfnod o ddwy flynedd mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae hwn yn rhoi cofnod clir o gyflawniadau disgyblion dros amser yn y meysydd pwnc hyn. Mae'r athro wedi defnyddio'r wybodaeth hon i nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu o ran medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae tystiolaeth ffotograffig o waith disgyblion mewn garddwriaeth, gofal anifeiliaid ac astudiaethau amgylcheddol. Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth o waith ysgrifenedig a gwblhawyd gan ddisgyblion mewn meysydd pwnc eraill.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod disgyblion yn cael profiad addas o fyd gwaith i'w helpu i ddatblygu eu medrau bywyd a'u hannibyniaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau â thri darparwr gwaith lleol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion wedi ymateb yn dda i'r cyfleoedd a gynigir gan y cysylltiadau hyn. Mae'r ysgol yn diwygio'i dull er mwyn cyflwyno lleoliadau yn raddol gyda mwy o gymorth gan staff yr ysgol.

**Argymhelliad 5: Gwella'r ffordd y caiff asesiadau risg eu cofnodi ar gyfer gweithgareddau'r ysgol trwy sicrhau bod ail unigolyn cyfrifol yn llofnodi ei fod/bod yn cymeradwyo'r gweithgaredd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r athro'n ysgrifennu asesiadau risg ar gyfer ymweliadau i ffwrdd o'r safle. Yna, mae'r rheolwr cofrestredig yn adolygu ac yn llofnodi'r asesiad risg i gymeradwyo'r gweithgaredd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- lunio polisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm, ei ategu â chynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i weithredu'n effeithiol [1(2)]
- bod â fframwaith i werthuso perfformiad y disgyblion, naill ai yn ôl amcanion yr ysgol ei hun fel y'u disgrifiwyd i'r rhieni, neu yn ôl y safonau cenedlaethol arferol, neu yn ôl y ddau [1(4)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig ar iechyd a diogelwch disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, drwy ystyried cylchlythyr y Llywodraeth Cynulliad Cymru Ymweliadau Addysgol - Canllawiau diogelwch ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth' 2008; [3(2)(c)]

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Cariad |
| **Rhif yr ysgol** | 6686019 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11/01/2016 |
| **Perchennog** | United Care Wales |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 athro, 1 cynorthwyydd cymorth dysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 2 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/02/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |